Datganiad newyddion

10 Gorffennaf 2008

Estyn yn galw am waith partneriaeth gwell yn y sector addysg oedolion

Mewn adroddiad a ryddhawyd heddiw o'r enw 'Cyfuno'r ffiniau mewn dysgu oedolion yn y gymuned', canfu Estyn fod darparwyr addysg oedolion yn cyflwyno addysg o ansawdd da yn gyson, ond nad ydynt yn gweithio gyda'i gilydd digon i greu rhaglen ar y cyd sydd wedi'i theilwra'n benodol i fynd i'r afael ag anghenion y gymuned.

Dywedodd Dr Bill Maxwell: "Mae dysgu oedolion yn y gymuned yn rhan werthfawr a chadarn o ddiwylliant Cymru, ac yn faes blaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

"Ystyrir mai gwaith partneriaeth yw'r ffordd orau a mwyaf effeithiol o'i gyflwyno, ac er ei bod yn gadarnhaol gweld sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd, mae'n amlwg o'r adroddiad hwn nad yw'r partneriaethau hyn yn mynd yn ddigon pell.

"Mae rhai argymhellion cryf ar gyfer darparwyr addysg oedolion, sy'n cynnwys creu partneriaethau ffurfiol mewn ardaloedd daearyddol a strategaeth gyllid sy'n galluogi darparwyr i rannu cyllidebau. Dim ond gyda'r pethau hyn ar waith y byddwn yn gweld gwelliant ar draws y sector."

Yn ystod arolygiadau, canfu Estyn fod ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn partneriaethau addysg oedolion yn dda mewn 44% o ddarparwyr. Caiff rhan o'r llwyddiant hwn ei gyrru gan gymorth rheolaethol cryf ac ymrwymiad i gydweithio. Lle mae perthynas partneriaeth dda yn bodoli, caiff blaenoriaethau lleol a chenedlaethol eu cydnabod a'u cefnogi, gyda darpariaeth wedi'i chyfeirio'n dda ar gyfer y rheiny sydd ei hangen fwyaf.

Canfu Estyn fod y darparwyr hynny sy'n darparu lefelau dysgu da yn cael eu rhwystro yn eu cynllunio gan y diffyg strategaeth genedlaethol sy'n nodi'r nodau, y weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y sector. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw ffordd gydlynol iddynt weithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn aml yn arwain at anallu i greu perthynas waith gynhyrchiol rhwng darparwyr.

Mae diffyg strategaeth genedlaethol hefyd yn golygu nad oes gan ddarparwyr unrhyw ffordd o fesur eu hunain yn erbyn eu cymheiriaid. Nid yw hyn yn galluogi cymhariaeth tebyg at ei debyg, nac yn hyrwyddo arfer orau yn y sector.

Mewn cymunedau, nid yw digon o ddarparwyr yn cynnwys dysgwyr wrth benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer addysg oedolion yn eu hardal. Yn ychwanegol, mae rhai partneriaethau yn effeithiol yn darganfod lefel yr angen am ddosbarthiadau Cymraeg neu ddwyieithog yn eu hardal.

Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu:

- fframwaith polisi cenedlaethol clir ar gyfer darparu dysgu oedolion yn y gymuned; a

- strwythur cyllid sy'n galluogi darparwyr i rannu cyllidebau a chyflawni gwerth am arian, yn ogystal â sefydlu meincnodau a dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Mae Estyn hefyd yn argymell:

- mewn ardaloedd lle mae darparwyr wedi'u lleoli yn agos at ei gilydd, dylent rannu cyllidebau i gyflawni gwerth gwell am arian ac ymuno â'i gilydd wrth ddarparu hyfforddiant a datblygu staff. Byddai hyn yn golygu bod beichiau gwaith y partneriaethau yn cael eu rheoli'n fwy effeithiol.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Cyfuno'r ffiniau mewn dysgu oedolion yn y gymuned', gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys arolygu 13 ardal awdurdod lleol a dau sefydliad rhwng mis Medi 2004 a mis Ionawr 2008.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Lawrie Jones
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464